# Ymarfer Codi Sbwriel



**Amcanion dysgu:**

Mae plant yn dechrau deall

- beth yw sbwriel,
- pam ei fod yn bwysig,
- sut y gallant helpu i ofalu am eu hamgylchedd trwy archwilio diogel ac ymarferol.

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Tîm Taclus

## Gwybodaeth Ymarferwyr:

Mae sbwriel yn rhywbeth y gall llawer o blant sylwi arno mewn bywyd bob dydd

Mae hyn yn ei wneud yn brofiad dysgu bywyd go iawn gan fod plant yn gallu gweld y gwahaniaeth y mae eu gweithredoedd yn ei wneud yn syth. Mae cymryd rhan mewn sesiwn codi sbwriel syml yn helpu plant i ddatblygu gofal am yr amgylchedd, teimlad o gyfrifoldeb, chwilfrydedd am y byd o'u hamgylch a theimlad gwirioneddol o gyflawni rhywbeth.

Cadwch y profiad yn gadarnhaol ac yn ymarferol, gyda llawer o amser i sylwi ar yr hyn maen nhw'n dod o hyd iddo, siarad am eu harsylwadau ac wrth gwrs dathlu eu hymdrechion.

Dylai'r ffocws fod ar gydweithio, gwneud gwahaniaeth, ac annog plant i ofalu am y mannau maen nhw'n eu defnyddio ac yn eu mwynhau.

## Gweithgaredd

Yn y gweithgaredd hwn, gall plant fynd ar sesiwn codi sbwriel esgus neu go iawn mewn ardal ddiogel yn y lleoliad. Maen nhw'n casglu eitemau gan ddefnyddio offer, siarad am yr hyn maen nhw'n dod o hyd iddo, ac yna'n didoli a chyfrif y sbwriel gyda'i gilydd.

Gwiriad diogelwch cyflym: Mae'n bwysig eich bod yn dewis ardal ddiogel i ffwrdd o beryglon, yn goruchwylio'r plant yn ofalus, yn defnyddio offer priodol, a pheidiwch anghofio golchi dwylo ar ôl y gweithgaredd.



## Yr hyn fydd ei angen arnoch

- Eitemau glân, diogel sydd yn cynrychioli sbwriel, fel poteli plastig, cartonau, papurau lapio, caeadon, a phacedi creision gwag.
- Codwyr sbwriel neu offer bachu sy'n ddiogel i blant, gall gefeiliau weithio'n dda iawn.
- Bwcedi, bagiau, neu fasgedi ar gyfer casglu'r sbwriel.
- Cylchynau, hambyrddau, neu fannau wedi eu labelu i wneud didoli'n haws.
- Dewisol: clipfyrddau, marciau rhifo, neu ddalen gyfrif syml.

## Crëwch sefyllfa

Tra bod y plant i ffwrdd o'r ardal, crëwch ofod "sbwriel" diogel gan ddefnyddio'r eitemau yr ydych wedi eu casglu.

Yn yr awyr agored sydd orau, ond gellir gwneud hyn hefyd dan do os yw'r gofod yn gyfyngedig. Cyn bod y plant yn dechrau, gwiriwch y gofod eto a gwaredwch unrhyw beth anniogel.

## Siaradwch gyda'ch gilydd cyn dechrau



cyflwyno'r her mewn ffordd chwareus, er enghraifft -

*"O na! Mae angen cymorth y Tîm Taclus ar ein lle chwarae!"*

Defnyddiwch ychydig o'r pwyntiau syml isod i gyflwyno'r gweithgaredd mewn ffordd dyner, sy'n addas i blant.

- Sbwriel yw sbwriel sydd wedi'i adael yn y lle anghywir, fel papurau lapio, poteli, caniau a bagiau.
- Gall gwynt a glaw ei gario i ddraeniau, afonydd a'r môr. Gall niweidio anifeiliaid a gwneud lleoedd yn anniogel.
- Nid sbwriel yw eitemau naturiol fel dail a phlu.
- Gallwn ni helpu trwy roi sbwriel yn y bin, ailddefnyddio eitemau ac ailgylchu.

## Ewch ar helfa sbwriel

Gwahoddwch y plant i chwilio'n ofalus a chasglu un eitem ar y tro, anogwch y plant i siarad am yr hyn maen nhw'n sylwi arno.

Defnyddiwch iaith fel "*Des i o hyd i bapur lapio*" neu "*Mae hwn i fod yn y bin.*"

Defnyddiwch lawer o awgrymiadau meddwl a sgwrsion fel

- "Beth wyt ti wedi dod o hyd iddo?"
- "Ydy e'n sbwriel neu ddim y sbwriel?"
- "Sut gallwn ni wneud y gofod hwn yn daclus eto?"

**Prif neges - 'Byddwch yn rhan o'r Tîm Taclus! Rhowch sbwriel yn y lle iawn a chadwch ein lle'n lân ac yn ddiogel.'**



## Didolwch a chyfrwch

Gosodwch gylchynau, hambyrddau, neu ofod didoi a gweithiwch gyda'ch gilydd i roi'r sbwriel mewn grwpiau yn ôl math.

Cyfrwch beth sydd ym mhob grŵp, cymharwch pa grŵp sydd â mwy neu lai, a sylwch ar liwiau, siapiau, a deunyddiau.

## Myfyriwch a dathlwch

Siaradwch gyda'ch gilydd am yr hyn allai fod wedi digwydd pe byddai'r sbwriel wedi aros yno.
Ble allai fod wedi mynd?
Pwy neu beth allai fod wedi effeithio arnynt?

Gorffenwch drwy ddathlu gwaith tîm y plant a'u gofal dros yr amgylchedd.

## Syniadau i ymestyn y dysgul

Gallech ddilyn y gweithgaredd hwn gyda thudalen syml ar y llawr, siart rhifo yn y dosbarth, gêm ddidoli "naturiol neu sbwriel?"

Gallai'r ymarferwyr hefyd ddefnyddio canllawiau codi sbwriel o dudalen Eco-Tots Cymru a gwefan Cadwch Gymru'n Daclus wrth gynllunio gweithgareddau glanhau tu allan yn y dyfodol.



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

The Moondance Foundation

Tîm Taclus